# Teledu a ffilmio ar yr Ystad

23 Gorffennaf 2024

**Cais am wybodaeth.**

Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb i'ch cais, a ddaeth i law ar 20 Mehefin. Yn y cais hwnnw gwnaethoch ofyn:

> *Under the Freedom of Information Act, for the tax years 2014/15 to 2022/23 inclusive, please would you please fully disclose the following details, breaking the figures by year:*

1. *How much revenue has been received by your organisation for services rendered to film and television productions? This could include location rental, permits and all other services related to film productions using your personnel or resources.*
2. *Please outline the type of work or service rendered, in each case and disclose the revenue received for each type of service.*
3. *How much has your organisation spent on facilitating such arrangements between 2014/15 to 2022/23, inclusive, broken down by year?*

Gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth mewn perthynas â'ch cais. Mae'r wybodaeth honno wedi'i datgelu'n rhannol isod. Fodd bynnag, mewn perthynas â rhywfaint o'r wybodaeth sydd gennym, rydym wedi dod i'r casgliad bod adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol, ac rydym yn cymryd camau pellach mewn perthynas â hynny.

Mae adran 43(2) yn eithrio unrhyw wybodaeth a fyddai'n niweidio, neu a fyddai'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

sy'n ei chadw) rhag cael ei datgelu. Mae hyn oherwydd bod y wybodaeth a gedwir yn cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif ynghylch ffioedd rhentu lleoliadau a godir, fesul achos, ar gyfer rhai mathau o ffilmio. Rydym yn pryderu y gallai datgelu'r wybodaeth honno effeithio'n negyddol ar ein gallu yn y dyfodol i negodi lefelau ffioedd rhentu gyda sefydliadau cynhyrchu ffilm a theledu.

Mae adran 43(2) yn ddarostyngedig i brawf budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu, cyn y gellir cymhwyso'r eithriad, fod rhaid i ni ystyried a yw'r ffactorau budd y cyhoedd o blaid cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Gan ein bod wedi nodi bod adran 43(2) yn eithriad a allai fod yn berthnasol, byddwn yn bwrw ymlaen i gynnal y prawf budd y cyhoedd angenrheidiol.

Mae adran 10(3) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu i ni estyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio pan fo angen mwy o amser arnom i ystyried y prawf budd y cyhoedd a nodir uchod. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod 20 diwrnod gwaith ychwanegol yn estyniad "rhesymol". Byddwn yn ceisio darparu rhagor o wybodaeth am ein dibyniaeth, neu fel arall, ar adran 43(2) o fewn amser rhesymol, ac erbyn 16 Awst fan bellaf. Byddwn yn dod yn ôl atoch bryd hynny.

Fodd bynnag, yn y cyfamser, gallaf ddatgelu'r wybodaeth a ganlyn.

1. *How much revenue has been received by your organisation for services rendered to film and television productions? This could include location rental, permits and all other services related to film productions using your personnel or resources.*

Mae'r tabl isod yn dangos y symiau a dderbyniwyd gan Gomisiwn y Senedd sy'n deillio o waith ffilmio sydd wedi digwydd ar ystad y Senedd. Ym mhob achos, maent yn cynnwys adennill taliadau a gododd o ganlyniad i weithgareddau ffilmio, gan gynnwys talu goramser i staff y Comisiwn yn ogystal â thaliadau a ysgwyddwyd o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd i'r Comisiwn gan bartïon allanol a chontractwyr. Mae'r taliadau olaf hyn yn cynnwys ffioedd diogelwch, glanhau a rheoli cyfleusterau ac ystadau ychwanegol.

| **Blwyddyn ariannol** | **Cyfanswm gan gynnwys TAW oni nodir yn wahanol** | |
|---|---|---|
| **2018-19** | **£15,934.94 (dim dadansoddiad ar gael)** | |
| | **£1,285.32 (gweler y dadansoddiad)** | |
| | Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £168.68 |
| | Diogelwch a'r heddlu | £463.27 |
| | Staffio | £439.15 |

| | | |
|---|---|---|
| | TAW | £214.22 |
| **2019-20** | **£32,983.55 (gweler y dadansoddiad)** | |
| | Costau diogelwch a'r heddlu | £25,705.92 |
| | Goramser staff | £1,780.37 |
| | TAW | £5,497.26 |
| | **£2,241.77 (gweler y dadansoddiad)** | |
| | Goramser staff | £230.31 |
| | Costau diogelwch a'r heddlu | £1,798.84 |
| | Arlwyo | £73.96 |
| | TAW | £138.66 |
| | **£1,285.32 (gweler y dadansoddiad)** | |
| | Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £168.68 |
| | Goramser staff | £117.31 |
| | Costau diogelwch a'r heddlu | £785.11 |
| | TAW | £214.22 |
| **2020-21** | **£476.64 (dim dadansoddiad ar gael)** | |
| **2021-22** | **£36,763.94 (gweler y dadansoddiad isod)** | |
| | Costau cyfreithiol | £6,041.00 |
| | Arolwg cyflwr | £2,850.00 |
| | Tynnu llwyfan Genero | £2,655.16 |
| | Staffio a goramser yr heddlu | £19,090.46 |
| | TAW | £6,127.32 |
| | **£201.34 (gweler y dadansoddiad isod)** | |
| | Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £86.24 |
| | Goramser diogelwch | £81.54 |
| | TAW | £33.56 |
| **2023-24** | **£8,523.44 (heb gynnwys TAW) (gweler y dadansoddiad isod)** | |
| | Digwyddiadau | £1,234.65 |
| | Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £698.28 |
| | Glanhau | £224.00 |
| | Diogelwch a'r heddlu | £6,366.51 |

2. *Please outline the type of work or service rendered, in each case and disclose the revenue received for each type of service.*

Gweler ein hateb i gwestiwn 1.

3. *How much has your organisation spent on facilitating such arrangements between 2014/15 to 2022/23, inclusive, broken down by year?*

Nid oes gennym y wybodaeth sydd ei hangen i ymateb i'r elfen hon o'ch cais. Mae hynny oherwydd, y tu hwnt i daliadau ychwanegol (fel y rhai a nodir yn yr ateb i gwestiwn 1), na chedwir cofnod o'r amser a dreulir mewn perthynas â gweithgareddau ffilmio.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.  Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF